

Ymateb i Faterion i'w harchwilio

Rhif adnabod: 563

Gwrandawiadau 1 a 2

Mae Dyfodol i'r Iaith yn Sir Gaerfyrddin yn croesawu'r cyfle olaf i gynnig sylwadau ar Gynllun Adneuo Sir Gaerfyrddin 2018 -2033. 'Rydym eisoes wedi cynnig dogfennau at sylw'r archwiliad, felly mae'r sylwadau isod yn canolbwyntio ar y Meini Prawf cadernid, yn arbennig rhifau 1 a 2 a Papur Pwnc –“*Yr Iaith Gymraeg*” sydd yn rhan o ymateb adran Cynllunio y sir i'r Cynllun Lleol Diwygiedig .

Rydym yn argyhoeddedig nad yw'r CDLI yn ei ffurf bresennol yn un cadarn a bod angen ymgynghoriad yn dilyn y gwrandawiadau.

Prawf 1: A yw'r cynllun yn ffitio [h.y. a yw'n glir bod y CDLI yn gyson â chynlluniau eraill?]

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Cwestiwn 1b a 6

*“Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. ”*Nid yw'r Gymraeg yn ffynnu yn Sir Gâr. Mae canlyniadau Cyfrifiadau 2011 a 2021 yn dangos y Gymraeg yn crebachu'n gyflym yn y sir.

Opsiynau a wrthodwyd megis Amcanestyniadau Poblogaeth Llywodraeth Cymru

Paratoi'r Cynllun –cwestiwn 2 “holl ddewisiadau rhesymol amgen”

Gwrthodwyd dau amcangyfrif poblogaeth ac anghenion tai gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru .

Mae amcangyfrif Llywodraeth Cymru yn cynnig atebion llawer mwy derbynol o *“effeithiau'r CDLL ar amcanion cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol”* [Nodyn Cyngor Technegol 20 “Cynllunio a'r Gymraeg” 2017] na'r Strategaeth a Ffefrir gan y Cyngor Sir.

Targed Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o 20% erbyn 2050.

Canlyniad amlwg adeiladu tai ar gyfer mewnfudwyr di-Gymraeg a hynny heb cyfundrefn gymathu effeithiol, yw creu sefyllfa lle mae Saesneg yw'r norm mewn cynunedau oedd yn drwyadl Gymraeg . Mae hyn yn cyfyngu ar y defnydd o'r Gymraeg.

Cymru'r Dyfodol Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Paratoi'r Cynllun cwestiwn 5 a 19

Dogfen gynllunio dra phwysig nad yw'r Cyngor Sir wedi talu sylw digonol iddi. [*Adolygiad cyntaf o Gynllun Adneuo Cyngor Sir Caerfyrddin, tud. 4 Mai 2023*]

Dros 20 mlynedd mae Cymru'r Dyfodol yn amcangyfrif mai 25,600 o dai sydd eu hangen ar draws 5 sir y De Orllewin. Mae mwy nag un ffordd o rannu'r cyfanswm ar draws y siroedd, ond nid oes yr un ohonynt yn dod yn agos at 8,822.

Swyddfa'r Comisiynydd Iaith. Paratoi'r Cynllun cwestiwn 2

Cafwyd gwrthwynebiad o du'r Comisiynydd Iaith i'r bwriad gwreiddiol i adeiladu 8,835 o dai. Go brin bod barn y Comisiynydd wedi newid ar ôl gostwng y cyfanswm o 13.

Llywodraeth Cymru. Cwestiwn 10a

Ar ran Llywodraeth Cymru, cododd Mark Newey gwestiynau pwrpasol am effaith posibl mewnfudo ar y Gymraeg Dangosodd Cyfrifiad 2011 bod 24% o boblogawth y sir wedi “eu geni tu allan i Gymru”. Erbyn 2021 cododd y ganran i 26.4%.

Polisi Cynllunio Cymru [Cwestiwn 19 Polisi SP8 a'r angen am dystiolaeth gadarn]

Nid yw'r polisi o " *Sicrhau dosbarthiad a chyflwyniad eang i'r datblygiad sy'n ystyried gallu'r ardal neu gymuned i ganiatau'r datblygiad heb gael effaith andwyol ar y defnydd o'r Gymraeg*" wedi llwyddo yn Sir Gaerfyrddin. Nid yw'r strategaeth o ddsbarthiad eang a graddol wedi llwyddo i osgoi effaith andwyol ar y Gymraeg. Mae canlyniadau'r Cyfrifiadau yn 2011 a 2021 yn tanlinellu'r methiant, ac mae angen adeiladu llai o dai gan ganolbwyntio ar anghenion cartrefi pobl y sir. Mae'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg o'r farn bod angen " *gwell arweiniad yn Polisi Cynllunio Cymru mewn perthynas â datblygu cynaliadwya'r Gymraeg*". Mae'r Comisiwn hefyd yn gofyn am welliannau i fframwaith datblygu *Cymru'r Dyfodol*" adolygiad cynhwysfawr o *Nodyn Technegol [TAN] 20; Cynllunio a'r Gymraeg a Gwell arweiniad ynglŷn â'r Gymraeg yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu*" Mae'n hanfodol o ran Sir Gaerfyrddin i ystyried barn y Comisiwn Cymunedau Cymraeg a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n dweud - " *oherwydd pwysigrwydd y maes, bydd y comisiwn yn cyhoeddi adroddiad ac ynddo argymhellion manwl o ran cynllunio gwlad a thref erbyn Rhagfyr 2024.*"

PRAWF 2: A yw'r cynllun yn briodol? [h.y. a yw'r cynllun yn briodol i'r ardal yng ngholeuni'r Dystiolaeth?]

Os yw'r Llywodraeth o ddifrif eisiau sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a gweld cynnydd yn ei defnydd, mae Sir Gaerfyrddin yn allweddol. Dyma sir oedd yn gadarnle i'r Gymraeg. Cydnabyddir arwyddocad y sir gan ei bod yn rhan o gynllun Arfor ac adroddiad diweddar Comisiwn Cymunedau Cymraeg.

Yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg a dogfennau'r Cyngor Sir.

Paratoi'r Cynllun –cwestiwn 7 – “newid sylweddol mewn amgylchiadau lleol”

- Mae mwy wedi marw na cael eu geni yn y sir, yn flynyddol ers 2001. Dylai hyn arwain at boblogaeth yn lleihau.
- Tyfodd y boblogaeth. Rhwng 2011 a 2021 tyfodd y boblogaeth 4,100 oherwydd mewnfudo.
- Mae'r mewnfudo ac allfudo wedi arwain at boblogaeth sydd yn heneiddio. Mae hyn yn rhwym o roi pwysau ychwanegol ar y gwasanaethau cymdeithasol sydd eisoes yn gwegian.

Gan bod canran arwyddocaol o'r mewnfudwyr yn ganol oed neu'n hŷn, anaml byddant yn mynd ati i ddysgu Cymraeg.

Yn Sir Gaerfyrddin gwelwyd y gwmp mwyaf yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn y ddau Gyfrifiad diwethaf. Rhwng 2001 a 2011 syrthiodd y ganran 6% a rhwng 2011 a 2021 syrthiodd 4% eto i 39.9%.

Syndod oedd i'r Cyngor Sir dderbyn y bwriad i adeiladu 8,822 o dai ar Ragfyr 7 2022, diwrnod ar ôl cyhoeddi canlyniadau iaith hynod bryderus Cyfrifiad 2021. Felly, ni roddwyd amser digonol i ystyried y "dystiolaeth newydd" arwyddocaol a difrifol hyn.

Tai.- Darpariaeth o ran Tai cwestiynau 1a,1b,1c a 1d

Er gwaethaf ymdrechion yr Adran Tai mae tua 2,000 o dai gwag yn y sir, all ddod yn dai preswyl addas. Nid yw'r sir yn gwybod faint o dai sydd ar werth. Mae'r rhain eisoes ar gael ar gyfer unrhyw adfywiad economaidd.

Economi. Mater 4: Pobl a Lleoedd Ffyniannus –Cyflogaeth, yr Economi Ymwelwyr a Seilwaith Cwestiynau 1 a 3 “tystiolaeth gadarn a chredadwy” a “faint o swyddi newydd yr amcangyfrifir eu bod yn cael eu creu”

Y gobaith newydd yw Pentre'r Awel ar gyrion Llanelli gyda'r targed o greu hyd at 2,000 o swyddi. Collodd cannoedd eu swyddi yn yr ardal dros y ddegawd ddiwethaf. Mae Llanelli yn agos at Abertawe a gyda colli swyddi yng ngwaith dir TATA yn Port Talbot, gall bobl o ardaloedd cyfagos

deithio i Pentre'r Awel. Mae dogfen y Cyngor Sir yn 2021 [Carmarthenshire Economic Recovery and Delivery Plan] yn cydnabod colli 3,000 o swyddi .
Mae'r gweithlu yma'n barod. Nid oes angen miloedd o dai i gynnal a hybu'r economi.

Yr Asesiad Iaith. – Cwestiwn 19a

Mae angen canmol y sir am ymgymryd â dadansoddiad o'r fath. Ond mae'r Asesiad yn ddamniol i holl sail y Cynllun a Ffefrir:

“Yn nhermau gwireddu amcanestyniadau poblogaeth, amcanestyniadau aelwydydd a thwf poblogaeth, nid yw cysondeb gwireddu amcanestyniadau yn arbennig o dda”

Gallwn ond cytuno, gan obeithio bydd yr Archwiliad yn dwyn pwysau ar y Cyngor Sit i ostwng y cyfanswm tai bwriedir eu hadeiladu, derbyn twf economaidd graddol , adeiladu y mathau o dai sydd eu hangen yn lleol ac wedi eu darparu gan adeiladwyr lleol. Ar yr un pryd, mae'n hanfodol cyflwyno cyfundrefn gymathu effeithiol i gynnal a chryfhau ein hiaith gynhenid yn y sir.

Yn ei ffurf bresennol mae'r Cynllun Datblygu yn ansad a gofynnwn am ymgynghoriad yn dilyn y gwrandawriadau

Wyn Thomas, Elaine Edwards a Huw Michael
Dyfodol i'r Iaith [Sir Gaerfyrddin] Medi 12 2024